



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Andy



Helo. Mae adnoddau addysgol agored yn rhywbeth rydw i wedi meddwl cryn dipyn amdanynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ond yn y maes rydw i'n gweithio, does dim llawer ar gael, mewn gwirionedd. Mae hynny mewn addysg fusnes. Rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i weithio mewn lleoedd sy'n eithaf agored o ran rhannu adnoddau rhwng aelodau staff eraill. Ond mae hynny o fewn y sefydliad ei hun yn unig, a dydy hynny ddim yn agored o gwbl, mewn gwirionedd.

Nawr, rydw i wedi ceisio bod mor agored ag y gallaf wrth greu fy ngwrthrychau dysgu fy hun. Er enghraifft, creais set o wersi ar gyfer fy nosbarth busnes Blwyddyn 10 yn eithaf diweddar. Gwnes yn siŵr fy mod i'n rhoi trwydded Creative Commons a thrwydded anfasnachol i'r set o wersi hefyd, fel bod modd eu haddasu a'u gwerthu ymlaen, ac maen nhw'n parhau i fod yn agored, sy'n bwysig iawn, yn fy marn i.

Ond cyn i mi astudio gyda'r Brifysgol Agored, doedd trwyddedu ddim wir yn rhywbeth roeddwn i wedi meddwl amdano ryw lawer, yn enwedig wrth greu gwersi a phethau felly, ond nawr, trwy fy astudiaethau, rydw i'n canolbwyntio i raddau helaeth ar gael deunydd gweledol - os ydw i'n ei gael o Flickr, er enghraifft, byddaf i ond yn chwilio ar Creative Commons, y math hwnnw o beth. Felly, trwy fy astudiaethau, mae wedi helpu i mi feddwl ychydig mwy am drwyddedu.